OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2012 Rhif 1630 (Cy.209)

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Ffioedd Myfyrwyr (Cyrsiau a Phersonau Cymhwysol) (Cymru) (Diwygio) 2012

Gwnaed - - - -	*20 Mehefin 2012*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*22 Mehefin 2012*
Yn dod i rym - -	*1 Medi 2012*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adrannau 28(6) a 47(5) o Ddeddf Addysg Uwch 2004(**1**), ac sydd bellach yn arferadwy ganddynt hwy(**2**), yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Ffioedd Myfyrwyr (Cyrsiau a Phersonau Cymhwysol) (Cymru) (Diwygio) 2012 a deuant i rym ar 1 Medi 2012.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

Diwygio

2. Yn rheoliad 3 o Reoliadau Ffioedd Myfyrwyr (Cyrsiau a Phersonau Cymhwysol) (Cymru) 2011(**3**) ar ôl paragraff (5) mewnosoder—

"(6) Nid yw cwrs yn gwrs cymhwysol os yw'n gwrs rhan-amser."

Leighton Andrews
Y Gweinidog Addysg a Sgiliau, un o Weinidogion Cymru

20 Mehefin 2012

(**1**) 2004 p.8. Mae diwygiadau i adran 28 nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.
(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraffau 30(1) a 30(2)(c) o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).
(**3**) O.S. 2011/691 (Cy.103), y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.